



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

Llyr Gruffydd AM  
Chair Finance Committee  
The National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

27 Mehefin 2019

Annwyl Llyr,

### **DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2013**

Diolch ichi am eich gwahoddiad i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar 11 Gorffennaf 2019.

Cyflwynais sylwadau gynt ar gylch gorchwyl y Pwyllgor a nodais fy mod yn cytuno'n fras â'r diwygiadau arfaethedig i'w hystyried gan y Pwyllgor. Codais bryder hefyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y posibilrwydd y byddai diffyg cymorth technegol ar gael i gefnogi unrhyw newidiadau i'r Ddeddf.

Mae materion megis 'rheol ddim mwy na'r gost lawn', gofyniad am gworwm o fwyafrif a pharatoi adroddiad interim yn faterion sy'n effeithio ar Swyddfa Archwilio Cymru yn unig. Er hynny, rwyf yn falch o nodi y bydd y Pwyllgor bellach hefyd yn ystyried dyfodol y trefniadau talu ffioedd ar gyfer gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Rwyf, felly'n atodi crynodeb yn Atodiad 1 o'r rhesymau paham yr wyf yn credu bod y trefniadau presennol yn addas at y diben.

Rydych hefyd wedi gofyn am fy marn am y ddyletswydd statudol a osodir ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i osod copi o gyfrifon ardystiedig bedwar mis ar ôl iddynt gael eu cyflwyno. Byddwn yn disgwyl i holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyflwyno cyfrifon sy'n ddigon cadarn i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol a'i dîm i osod copi yn y Cynulliad cyn pen pedwar mis. Os na fydd hyn yn digwydd fy mhryder i yw bod yr wybodaeth yn y cyfrifon yn dod yn llai perthnasol po hwyaf y bydd y cyfnod rhwng diwedd y flwyddyn a chyhoeddi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wedi dweud hynny, rwyf yn derbyn y gallai fod amgylchiadau lle bydd oedi'n digwydd. Un enghraifft fyddai bod digwyddiadau mawr ar ôl y fantolen yn dod i'r amlwg. Nodaf fod yr adroddiad i'r oedi wrth osod cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015-16 yn nodi nad amlinellir unrhyw ganlyniadau yn y Ddeddf os methir â bodloni'r terfyn amser o bedwar mis. Serch hynny, byddwn o leiaf yn disgwyl i'r Swyddog Cyfrifyddu perthnasol orfod esbonio'r rhesymau dros unrhyw oedi i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC). Felly, ar y cyfan, rwyf yn fodlon â'r hyblygrwydd ychwanegol a gynigir.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Rebecca Evans AC/AM**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

## Atodlen 1

### Proses Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer codi ffioedd

Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n cael ei hariannu ar hyn o bryd yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru a thrwy ffioedd y cytunir arnynt ac sy'n cael eu hadennill oddi wrth gleientiaid. Er nad eir i'r afael â hyn yn y newidiadau arfaethedig i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol bod Swyddfa Archwilio Cymru'n ceisio newid gweinyddol i'r ffordd y mae'r sefydliad y cael ei ariannu drwy gyflwyno ffioedd tybiannol. Os cytunir ar y newid hwn, caf ar ddeall y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei hariannu'n llwyr yn y dyfodol trwy Gronfa Gyfunol Cymru.

Hoffwn awgrymu i'r Pwyllgor bod y broses o gytuno ar ffioedd â chleient yn rhan ddefnyddiol o'r broses archwilio gan ei bod:

- Yn cefnogi datblygu'r cynllun archwilio. Gan fod y cleient yn glir am y gweithgareddau a'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio gan yr archwilwyr.
- Yn helpu'r sefydliad i ddangos gwerth am arian.
- Yn cefnogi Swyddfa Archwilio Cymru i gynllunio'r defnydd o adnoddau'n well a lle mae oedi'n digwydd i adennill y costau ychwanegol angenrheidiol.
- Yn helpu'r cyrff hynny sy'n cael eu harchwilio i fod yn fwy disgybledig yn eu harchwiliadau; mae codi tâl caled ac uniongyrchol yn cynnig cymhelliant i ddelio ag archwiliadau yn effeithiol.

Rwyf yn derbyn bod adennill ffioedd oddi wrth gleientiaid yn ychwanegu at y baich gweinyddol i unrhyw sefydliad. Er hynny, ni allaf feddwl am lawer o anfantais eraill yn y broses bresennol. Felly, am y rhesymau a amlinellir eisoes rwyf yn credu bod y ddisgyblaeth o gytuno ar ffioedd a'u hadennill yn gwrthbwysu unrhyw anfantais.